# Archwilio a gwirio cydymffurfiaeth â safonau glendid

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn rhan o'r maes cymhwysedd sy'n gysylltiedig â rheoli a goruchwylio ym maes glanhau. Mae'n ymwneud ag archwilio a gwirio cydymffurfiaeth â safonau glendid. Mae ar gyfer goruchwylwyr yn y diwydiant glanhau sydd angen gwneud yn siŵr bod y gweithgareddau glanhau yn cyrraedd y safonau ansawdd angenrheidiol. Mae'n hanfodol archwilio'r broses lanhau, yn ogystal â'r canlyniadau i wella ansawdd arferion gwaith yn barhaus. Mae'n cynnwys paratoi ar gyfer yr archwiliad, ei gynnal, rhoi gwybod am ganfyddiadau'r archwiliad, dadansoddi tueddiadau a dilyn y dadansoddiad drwy gymryd camau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. paratoi ar gyfer yr archwiliad a nodi'r categorïau risg ar gyfer tasgau glanhau, deunyddiau neu weithdrefnau gwaith
2. pennu pa mor aml y mae angen archwilio ar gyfer pob categori risg a ddyrannwyd
3. cadarnhau'r math o archwiliad yn unol â pha mor aml y glanheir a'r amserlen
4. adolygu ac addasu'r categori risg ar gyfer pob archwiliad a gynhelir
5. nodi a dyrannu'r systemau sgorio perthnasol ar gyfer pob math o archwiliad
6. cytuno ar egwyddorion archwilio a chael systemau sgorio sy'n diffinio meini prawf ar gyfer pasio a methu
7. cadarnhau'r mannau glanhau i'w harchwilio
8. nodi maint y sampl ar gyfer pob maes, elfennau neu weithdrefnau gwaith sy'n cael eu harchwilio
9. cadarnhau'r dull archwilio a'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn trwy gydol asesiad
10. cynnal archwiliad o'r mannau glanhau yn unol â'r mathau o ddulliau archwilio, pa mor aml y glanheir, a'r systemau sgorio sydd wedi'u cadarnhau
11. defnyddio'r offer, y technolegau a'r mathau perthnasol o brofion ar gyfer archwilio'r man yn erbyn safonau glendid
12. gwneud yn siŵr bod yr archwiliad wedi'i lofnodi a'i stampio gydag amser a dyddiad
13. cynhyrchu'r cofnod archwilio a'r adroddiad sy'n manylu ar y categorïau risg, nifer y mannau a archwilir, a'r sgoriau a gyflawnwyd
14. addasu'r sgoriau a'r cyfrifiadau, lle bo angen
15. gwneud yn siŵr bod yr archwiliadau wedi eu cymeradwyo gan yr adran berthnasol neu aelod staff cyfrifol
16. cynnal dadansoddiad o dueddiadau sgoriau unigol a sgoriau cyffredinol dros gyfnodau o amser a gadarnheir
17. nodi ffynonellau data meincnod allanol a chynnal dadansoddiad yn eu herbyn
18. dadansoddi canlyniadau glendid a'r arferion glanhau
19. coladu amrywiannau o ran ansawdd ar draws amrywiaeth o feysydd, gan nodi'r methiannau
20. nodi meysydd penodol sydd angen eu hadolygu, gwella neu newid arferion gwaith
21. nodi'r camau perthnasol yn ddibynnol ar ganlyniad asesiadau archwilio

22. dyrannu'r camau gweithredu i'r aelodau staff neu'r adrannau perthnasol
23. monitro ac adolygu'r safonau glanhau ansawdd a gweithdrefnau diogelwch yn rheolaidd
24. gwneud yn siŵr bod lefelau eich cymhwysedd wrth gynnal archwiliadau glanhau yn gyfredol
25. hyfforddi er mwyn safoni'r methodolegau archwilio yn rheolaidd
26. adolygu eich cymhwysedd proffesiynol wrth gynnal asesiadau archwilio ac ymgymryd â'r holl hyfforddiant perthnasol, lle bo angen

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. safonau glendid eich sefydliad
2. lefelau eich cymhwysedd mewn safonau glendid ac archwiliadau glanhau
3. sut i baratoi ar gyfer yr archwiliad glendid a beth mae'n ei gynnwys
4. y rhesymau dros gynnal archwiliad a'i nodau
5. mynediad at y mannau i'w harchwilio
6. yr ystod o leoliadau a chanlyniadau glanhau i'w harchwilio
7. sut i samplu'r meysydd ar gyfer dilysu neu weithdrefnau gwaith ar gyfer archwilio
8. y categorïau risg ar gyfer cynnal yr archwiliad
9. pa mor aml y cynhelir archwiliadau mewn perthynas â risgiau
10. paramedrau'r systemau sgorio, pasio a methu ar gyfer cynnal yr archwiliad
11. y mathau o gwestiynau ar gyfer yr asesiad
12. y dull gweithredu ar gyfer cynnal yr archwiliad
13. sut i gynnal archwiliad gweledol o'r mannau sy'n cael eu glanhau
14. ystod y cyfarpar, technolegau a'r mathau o brofion ar gyfer cynnal yr archwiliad
15. pam mae'n bwysig cael yr adroddiadau archwilio wedi'u llofnodi a'u stampio gydag amser a dyddiad
16. y mathau o adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cofnodi canlyniadau'r archwiliad
17. yr aelod staff perthnasol i lofnodi'r archwiliad
18. sut mae canlyniadau'r archwiliad yn cael eu coladu
19. egwyddorion dadansoddi data a pham y gallai fod angen data meincnodi
20. sut mae dadansoddi'r canlyniadau a nodi'r mannau i roi sylw iddynt
21. y camau a'r hyfforddiant perthnasol y gallai fod eu hangen o ganlyniad i'r dadansoddiad
22. pam mae'n rhaid monitro ansawdd safonau glanhau yn rheolaidd
23. manteision cynnal yr archwiliad glendid
24. pwysigrwydd safoni'r methodolegau archwilio
25. sut i wella ansawdd y glendid a'r gweithdrefnau gwaith

Archwilio a gwirio cydymffurfiaeth â safonau glendid

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills CFA |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 23 Rhag 2021 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Instructus |
| **RCU gwreiddiol** | N/A |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Galwedigaethau Elfennol, Menter manwerthu a masnachol, Galwedigaethau Glanhau Elfennol, Gweithrediadau Gwasanaethau Glanhau, Gweithrediadau Cynorthwyo Glanhau, Mentrau gwasanaethau |
| **Cyfres/Set** | Gwasanaethau Glanhau a Chefnogi |
| **Geiriau Allweddol** | cefnogaeth, staff, hyfforddiant, gweithwyr glanhau, haint, goruchwylio, archwilio, safonau glendid, glanhau |